



Ffordd newydd o gael eich presgripsiynau rheolaidd

Os ydych chi, neu rywun rydych yn gofalu amdano, yn defnyddio'r un meddyginiaethau'n rheolaidd, efallai na fydd angen cael presgripsiwn newydd bob tro y bydd angen mwy o feddyginiaeth arnoch chi.

Siaradwch â'ch meddyg, fferylllydd lleol neu'r nyrs practis i gael gwybod mwy am hyn.

Cam 1

Y cam cyntaf yw siarad â'r person sy'n rhoi'r presgripsiwn i chi - a gofyn iddo/iddi os gallwch drefnu cael ambresgripsiynau. Fel arfer, eich meddyg neu'r nyrs practis fydd yn rhoi'r presgripsiwn i chi.

Wedyn, byddant yn gofyn i chi roi eich caniatâd i rannu gwybodaeth am eich triniaeth â'ch fferylllydd. Bydd hyn yn helpu'r fferylllydd i roi manylion eich triniaeth i'r person sy'n rhoi'r presgripsiwn, ac i roi cyngor defnyddiol i chi. Efallai y bydd gofyn i chi lofnodi ffurfl en ganiatâd.

Bydd y meddyg neu'r nyrs yn llofnodi ffurfl en ganiatâd (sy'n ddilys am fl wyddyn) a rhai ffurfl enni ambresgripsiwn, ac yn eu rhoi i chi.

Cam 2

Y cam nesaf fydd mynd â'r ffurfl en ganiatâd ac un o'r ffurfl enni ambresgripsiwn at y fferylllydd pan fydd angen y feddyginiaeth arnoch nesaf. Ni fydd angen i chi lenwi neu lofnodi'r ffurfl en nes eich bod yn barod i'w rhoi i'r fferylllydd. Gall y fferylllydd eich helpu i lenwi'r ffurfl en os nad ydych yn siwr beth i'w wneud. Dywedwch wrth y fferylllydd os ydych yn cymryd unrhyw feddyginiaethau eraill, neu os yw eich cyflwr wedi newid yn ddiweddar.

Mae'r fferylllydd yn cadw eich ffurfl en ganiatâd. Dylech gadw gweddill eich ffurfl enni mewn lle diogel, neu gallwch ofyn i'r fferylllydd ofalu amdanynt. Bydd angen un ffurfl en arnoch bob tro y byddwch yn casglu'ch meddyginiaeth.

Cam 3

Y tro nesaf y bydd angen mwy o feddyginiaeth arnoch, ewch â ffurfl en ambresgripsiwn newydd i'r un fferyllfa. Os yw'r fferyllfa yn cadw'r ffurfl enni ar eich rhan, ffoniwch nhw ymlaen llaw i ddweud bod angen mwy o feddyginiaeth arnoch. Wedyn, bydd yn barod i chi pan ewch i mewn. Cofiwch lenwi eich ffurfl en ambresgripsiwn ar ôl cyrraedd y fferyllfa er mwyn iddyn nhw allu rhoi'r feddyginiaeth i chi. Os oes gennych unrhyw gwestiwn, holwch y fferylllydd. Bydd yn fwy na pharod i'ch helpu.

Cwestiynau Posibl

Beth sy'n digwydd os ydw i'n colli fy ffurfl enni, neu os ydw i'n rhedeg allan?

Bydd angen i chi fynd yn ôl at y person sy'n rhoi'r presgripsiwn a gofyn am fwy o ffurfl enni. Cofiwch wneud hyn cyn bod eich meddyginiaeth yn rhedeg allan, rhag ofn y bydd gofyn i chi wneud apwyntiad gyda'r meddyg neu'r nyrs er mwyn iddyn nhw wneud yn siwr fod y feddyginiaeth yn dal yn addas.

Gall unrhyw fferyllfa ddarparu'r gwasanaeth hwn?

Gallwch ddewis unrhyw fferyllfa sy'n gweinyddu presgripsiynau'r GIG. Ond mae angen i chi wneud yn siwr eich bod yn defnyddio'r un fferyllfa bob tro y bydd angen mwy o feddyginiaeth arnoch chi.

Beth os ydw i'n symud ty^ ac angen mynd i fferyllfa arall?

Bydd angen i chi fynd yn ôl at y person sy'n rhoi'r presgripsiwn a gofyn am set newydd o ffurfl enni. Dylech fynd â'r ffurfl en ganiatâd newydd wedi'i llofnodi, ynghyd â ffurfl en amlbresgripsiwn i'ch fferyllfa newydd pan fydd angen eich meddyginiaeth arnoch.

A oes rhaid i mi gael pob eitem ar fy mhresgripsiwn ar yr un pryd?

Nac oes. Os oes dal digon o un math o feddyginiaeth ar ôl gyda chi, dywedwch wrth y fferylllydd.

A yw'r fferylllydd yn gymwys i'm helpu i?

Ydy. Mae wedi gwneud gradd meistr pedair blynedd, a blwyddyn arall o hyfforddiant ar ôl hynny lle mae'n dysgu am feddyginiaethau, sut i'w defnyddio ac am eu sgil-ffeithiau. Felly, mae'n gymwys iawn i'ch cynghori am y meddyginiaethau rydych yn eu cymryd.

A all y fferylllydd newid fy mhresgripsiwn heb ddweud wrthyf?

Na all. Gall y fferylllydd siarad â chi am eich meddyginiaeth, a'ch helpu gydag unrhyw broblem. Ond fydd neb yn newid eich presgripsiwn heb siarad â chi gyntaf.

Am faint o amser y mae'r presgripsiynau hyn yn ddilys?

Mae'r rhan fwyaf o bresgripsiynau'n ddilys am fl wyddyn. Mewn rhai achosion - er enghraifft os yw'ch meddyg neu'r nyrs practis am eich gweld yn gynt - efallai y byddant yn ddilys am lai o amser.

A alla i dal i gael amlbresgripsiynau o'r feddygfa?

Gallwch. Chi sydd i benderfynu sut rydych am gael eich meddyginiaethau.